# PWYLLGOR CRAFFU ADOLYGU POLISI A CHRAFFU PERFFORMIAD

DYDD MERCHER, 14 CHWEFROR 2018

| | |
|---|---|
| Yn bresenol: | Cynghorydd Walker(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Berman, Bowen-Thomson, Boyle, Cunnah, Owen Jones, Mackie, McKerlich a/ac Murphy |

## 113 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriad am absenoldeb.

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Owen Jones i'r Pwyllgor.

## 114 : DATGAN BUDDIANNAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau.

## 115 : COFNODION

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Ionawr 2018 yn gofnod cywir a chawsant eu llofnodi gan y Cadeirydd.

## 116 : CYNLLUN CORFFORAETHOL 2018-21 – DRAFFT TERFYNOL

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Huw Thomas (Arweinydd Cyngor Caerdydd), y Cynghorydd Chris Weaver (Aelod Cabinet dros Gyllid, Moderneiddio a Pherfformio), Paul Orders (Prif Weithredwr), Christine Salter (Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau), Joseph Reay (Pennaeth Perfformiad a Phartneriaethau) a Dylan Owen (Pennaeth Swyddfa'r Cabinet) i'r cyfarfod.

Rhoddodd y Cadeirydd gyfle i'r Arweinydd i gyflwyno datganiad, a nododd bod y Cynllun Corfforaethol Drafft yn cynrychioli penllanw llawer iawn o waith a ddechreuodd ym mis Mehefin ar ddechrau Uchelgais Prifddinas. Diolchodd i'r Aelodau am eu gwaith mewn cyfarfodydd ffurfiol ac ym Mhanel Perfformiad estynedig y Pwyllgor, oedd wedi helpu i ddatblygu'r Cynllun.

Gwahoddodd y Cadeirydd Dylan Owen i wneud cyflwyniad byr lle trafododd yr hyn a ganlyn:

- Ymgysylltu hyd yma
- Dangosyddion canlyniadau newydd
- Amcanion newydd/diwygiedig
- Dangosyddion Perfformiad Craidd newydd
- Perfformiad yn erbyn targedau arbedion

Rhoddodd y Cadeirydd gyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a rhoi sylwadau:

- Roedd yr Aelodau'n poeni y byddai'r dyhead o ddod yn Landlord Corfforaethol yn anodd i'w gyflawni. Roedd yr Arweinydd yn cydnabod yr anawsterau ond yn credu ei bod hi'n ddynodiad call, er gwaethaf y £25m o werthiannau

asedau'n cael ei glustnodi ar gyfer rhaglen Ysgolion Band B. Cyfeiriodd yr Aelodau at yr ôl-groniad werth £100m o waith trwsio oedd yn dal i'w gwblhau i ysgolion, gan holi sut fyddai hyn yn cael ei gyflawni. Eglurodd yr Aelod Cabinet y byddai'r £25m yn cael ei ddefnyddio ar gyfer ysgolion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) ac i gynnal a chadw asedau eraill. Y nod yw canolbwyntio ar ystâd y Cyngor ond buddsoddi mwy iddo, fyddai'n lleihau'r ôl-groniad. Rhoddodd yr Arweinydd wybod i Aelodau bod yr amcanion ynghylch Landlord Corfforaethol yn y Cynllun yn ymwneud â chael y gwerth gorau allan o'r ysâd. Nododd y Prif Weithredwr bod yr Awdurdod yn gall yn peidio â rhyddhau eiddo fydd ag effaith negyddol ar gyllidebau refeniw parhaus.

- Holodd yr Aelodau ymhellach pa mor effeithiol fyddai'r model Landlord Corfforaethol, gan nodi y bydd angen i bawb fuddsoddi ynddo er mwyn iddo weithio. Amlygwyd yr adran berthnasol yn y Cynllun Corfforaethol, sy'n ceisio sicrhau bod holl ystâd y Cyngor yn cydymffurfio erbyn diwedd 2018. Roedd yr Aelodau'n bryderus fod hyn yn afrealistig ac yn poeni hefyd mai dim ond cydymffurfiaeth oedd yn cael ei thrafod yn y cynllun, gan nodi bod swyddogaeth Landlord Corfforaethol yn llawer mwy na hynny. Cytunodd yr Arweinydd y dylid edrych ar y geiriad o bosibl, gan fod y dyheadau'n llawer mwy na chydymffurfiaeth, ond bod yr elfen gydymffurfiaeth ar y model wedi bod yn gweithio'n dda mewn blynyddoedd diweddar a'i bod yn elfen bwysig nad yw'r Cyngor wedi'i chyflawni'n gywir yn y gorffennol.

- Ceisiodd yr Aelodau eglurder ar y cysylltiadau rhwng y Cynllun Corfforaethol a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015). Gwnaethant drafod disgwyliad oes yn y Ddinas gan holi a oes digon o amcanion yn y Cynllun mewn perthynas ag anghydraddoldeb iechyd a hybu iechyd. Nododd yr Arweinydd bod y Cynllun Llesiant a ddyluniwyd ar gyfer Caerdydd wedi'i greu ar y cyd â'r Comisiynydd Llesiant, sydd â dyletswydd gofal i sicrhau bod aliniad ag amcanion Cenedlaethol. O ran anghydraddoldeb yng Nghaerdydd, mae camau y gall y Cyngor eu cymryd i fynd ar ôl hyn, ond mae angen cydlyniad ledled y sector cyhoeddus. Nododd y Swyddogion bod gweithgaredd wedi'i gynnal â chydweithwyr ledled y sector cyhoeddus i adnabod dangosyddion Dinas lefel uchel ac i edrych ar gyfraniad Caerdydd at y dangosyddion Cenedlaethol. Gofynnodd yr Aelodau am enghreifftiau o'r ymrwymiadau a chamau penodol yn y Cynllun Corfforaethol yn ymwneud â hyn, a chawsant wybod bod Papur Gwyrdd a Phapur Gwyn ar aer glân ar y gweill, y strategaeth fwyd cynaliadwy ac hefyd y Cynllun Llesiant sy'n cael ei Ddatblygu ar hyn o bryd, sy'n mynd ar ôl rhai o'r camau y bydd y Cyngor yn eu cymryd gyda phartneriaid eraill megis y Bwrdd Iechyd.

- Roedd yr Aelodau'n falch o'r newidiadau oedd eisoes wedi'u gwneud i'r Cynllun, yn benodol mewn perthynas â Dangosyddion Perfformiad Craidd, ond gan nodi'r rhan ynghylch datblygiad economaidd a niferoedd ymwelwyr, gan ofyn a fyddai modd i'r ffigwr fod yn gynnydd cynrychioladol o bobl yn ymweld ac yn aros, yn hytrach na chynnydd yn seiliedig ar ffigyrau'r llynedd yn unig. Eglurodd yr Aelodau bod y mater hwn wedi'i drafod yn y panel perfformiad, a'i ymchwilio mewn mwy o fanylder. Mae dull y Cyngor o ran rhoi hwb i nifer yr ymwelwyr ac ymwelwyr sy'n aros yn gysylltiedig â'r strategaeth Twristiaeth Cenedlaethol, sy'n gosod targed o gynnydd o 2% ar gyfer ymwelwyr dydd a chynnydd o 2% ar gyfer ymwelwyr sy'n aros.

- Roedd yr Aelodau'n falch o weld targedau mesuradwy i weithio tuag atynt yn y cynllun, ond gwnaethant holi i ba raddau yr oedd y diwylliant targedau wedi'i ymgorffori yn y Cyngor, ac a oes atebolrwydd i lawr y gadwyn cyflawni targedau. Cytunodd yr Arweinydd ei bod hi'n hanfodol bod y diwylliant hwn yn bodoli, a bod strwythurau a mesurau'n cael eu rhoi ar waith i alluogi cyflawni'r Uchelgais Prifddinas. Nododd bod y Cabinet yn cymryd ystod o fesurau i fonitro perfformiad ar sail barhaus a nod y Weinyddiaeth yw ticio bob bocs o ran yr amcanion. Eglurodd y Prif Weithredwr bod rhaglenni cyflawni sy'n cael eu trefnu ar lefel Swyddogion, sy'n dod â phrojectau perthnasol ynghyd megis Digidoleiddio. Bydd cynnydd ar y rhain yn cael ei adrodd amdano i'r Cabinet a'r Pwyllgor yn rhan o'r cylch chwarterol ac yn canolbwyntio ar sut mae'r Cyngor yn tracio cyflawniad y Cynllun Corfforaethol.

- Nododd yr Aelodau efallai y byddai'r Cynllun Corfforaethol, y Cynllun Llesiant a'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn gwrthdaro o bryd i'w gilydd. Rhoddwyd enghraifft mewn perthynas â gwerthu rhannau o dir nad ydynt yn ddichonadwy'n ariannol ac y byddai hyn yn groes i ychydig o nodau Llesiant. Gofynnodd yr Aelodau sut fydd hyn yn cael ei ddatrys, ac a oes unrhyw flaenoriaeth gyda'r cynlluniau. Gwnaeth yr Arweinydd nodi bod y cynlluniau'n ategu ei gilydd i ryw raddau, ac er nad oes unrhyw flaenoriaeth, mewn amgylchiadau penodol byddai angen balansu'r realiti yn erbyn dyheadau'r cynlluniau. Nododd y Prif Weithredwr mai'r dasg dros y cyfnod newydd yw ymgorffori'r ddeddfwriaeth Llesiant y Dyfodol dros y sefydliad ac y byddai hyn yn adnabod unrhyw feysydd sy'n gwrthdaro.

- O ran aer glan, gwnaeth Aelodau drafod y graff ar dudalen 41 o'r Cynllun Corfforaethol (Gwella Perfformiad y Ddinas: Cyfanswm yr Allyriadau $CO_2$ fesul pen o'r boblogaeth yn 2015) gan amlygu mai allan o 11 dinas, dim ond Leeds oedd â sgôr waeth. Nododd yr Aelodau y gallai Caerdydd ddysgu gan ddinasoedd eraill megis Bryste, a gofyn beth oedd y graff yn ei ddweud am y raddfa uchel o broblemau $CO_2$. Eglurodd yr Arweinydd bod y Papur Gwyrdd ar aer glân ar y gweill, ond mae'n bwysig wrth gymharu'r dinasoedd craidd hyn ein bod yn ystyried y sail gynhyrchu sy'n bodoli yng Nghaerdydd.

PENDERFYNWYD – y bydd y Cadeirydd yn ysgrifennu at yr Aelod Cabinet ar ran y Pwyllgor i gyfleu eu sylwadau a'u harsylwadau.

117 : CYNIGION DRAFFT AR GYFER Y GYLLIDEB 2018-19

**Cynigion Drafft y Gyllideb 2018-19 – Trosolwg**

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Chris Weaver (Aelod Cabinet dros Gyllid, Moderneiddio a Pherfformiad), Christine Salter (Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau), Ian Allwood (Pennaeth Cyllid) a Gareth Newell (Rheolwr Partneriaeth ac Ymgysylltu Cymunedol) i'r cyfarfod.

Gwahoddodd y Cadeirydd y Cynghorydd Weaver i wneud datganiad byr ar y cynigion cyllideb drafft, ac eglurodd bod y gyllideb wedi'i drafod gan ddefnyddio'r pedwar dull a nodwyd yn strategaeth y gyllideb y llynedd:

1. £2.4m o gronfeydd wrth gefn
2. 30% o gap ysgol
3. arbedion werth £40m
4. Cynnydd arfaethedig o 5% yn y Dreth Gyngor

Ychwanegodd bod y tair prif flaenoriaeth a ddaeth o'r broses ymgynghori cyhoeddus wedi'u hadlewyrchu yn y gyllideb. Bydd y Gwasanaethau Cymdeithasol yn derbyn y cynnydd mwyaf o £8m ychwanegol, sy'n adlewyrchu gofynion y ddinas.

Rhoddodd y Cadeirydd gyfle i Christine Salter roi cyflwyniad ar y cynigion cyllideb drafft ar gyfer 2018/19 a thrafododd y pwyntiau canlynol:

- Trosolwg Setliad Terfynol
- Ymgynghoriad
- Cyllideb Refeniw Drafft
- Rhagolygon Tymor Canolig
- Rhaglen Gyfalaf Drafft

Rhoddodd y Cadeirydd gyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a rhoi sylwadau:

- Nododd yr Aelodau bod y cynnydd arfaethedig o 5% yn y Dreth Gyngor yn uwch na'r cynnydd o 3.7% disgwyliedig. Mae cytundeb olaf Llywodraeth Cymru (LlC) yn well na'r hyn a ddisgwyliwyd, felly holodd yr Aelodau pam fod y cynnydd uwch hwn. Eglurodd yr Aelod Cabinet bod ychydig o newidiadau wedi bod ers y rhagolwg cychwynnol, yn benodol cynnydd yn y dyfarniad cyflog o 1% i 2%. Dadleuodd yr Aelodau y gallai'r cynnydd hwn fod wedi cael ei ragfynegi'n gynt a'i ystyried pan cafodd y Dreth Gyngor ei harchwilio gyntaf. Cafodd yr Aelodau wybod bod y cynnig Treth Gyngor is a wnaethpwyd yn gynharach yn Strategaeth y Gyllideb yn rhoi hyblygrwydd i'w gynyddu ar unrhyw adeg.

- Amlygodd yr aelodau bod nifer o gynigion arbedion mawr, yn benodol mewn perthynas â gofal cymdeithasol oedolion, sydd â risg goch neu goch-ambr. Ceisiodd yr aelodau gael eglurder ynghylch y posibilrwydd o gyflawni'r cynigion hyn, yn enwedig o ystyried yr amserlen. Cytunodd yr Aelod Cabinet mai'r arbedion hyn yw'r rhai mwyaf heriol i'w cyflawni oherwydd eu graddfa a'r risg gweddilliol fydd ynghlwm. Mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn wynebu heriau sylweddol, yn aml wedi'u dylanwadu gan ffactorau allanol, ond mae gwerth £3m wrth gefn yn y gyllideb i ateb peth o'r galw hyn ac i roi ychydig o hyblygrwydd. Nododd hefyd bod y gwaith o benodi Cyfarwyddwr Corfforaethol Pobl a Chymunedau ar waith, fydd yn alinio'r Gwasanaethau Cymdeithasol gyda Chymunedau a Thai.

- Nododd yr Aelodau bod meincnodi wedi digwydd yn y gorffennol i gymharu dyledion Caerdydd â dyledion cynghorau eraill yng Nghymru, ac roedd Caerdydd ar dop y rhestr honno. Mae'r ddyled bresennol yn sylweddol uwch nag yr oedd erstalwm, a holodd yr Aelodau os oedd unrhyw Gynghorau eraill yng Nghymru neu Loegr yn mynd tuag at y safon hon. Eglurodd y Cyfarwyddwr er nad oedd yn gallu siarad dros gynghorau yn Lloegr, doedd dim cyngor arall yng Nghymru yn agos at y safon hon, ac mae hynny oherwydd dyheadau'r Awdurdod hwn. Mae'n rhaid i fenthyca fod yn gynaliadwy yn y tymor hir. Mae'r ddyled allanol yn £632m ar hyn o bryd, ac mae'n debyg y bydd hynny'n ehangu at £1b. O ran prynu cymhorthdal tai a'r

rhaglen ysgolion Band B, mae ffrydiau incwm i gefnogi'r rhain. Mae angen canolbwyntio ar unrhyw ardaloedd lle caiff y ddyled ei hehangu heb y fflyd incwm i'w gefnogi. Cynigiodd yr Aelodau y dylid ail-adrodd yr ymarfer meincnodi, a dylai Caerdydd gael ei chymharu â phob cyngor yng Nghymru a Lloegr.

- Nododd yr aelodau pe byddai rhai o'r arbedion arfaethedig yn cael eu gwneud yn gynt (mewn 18-24 mis), byddai hyn yn cael effaith bositif ar y llif arian. Eglurodd y Cyfarwyddwr os oedd modd gwneud yr arbedion yn gynt, byddai'n rhaid iddynt gael eu cadw a pheidio â gwrthdaro gyda gwariant arall. Eglurodd hefyd bod rhai o'r cynigion arbedion yn cymryd amser a newidiadau i weithio, megis prosesau busnes newydd a thechnolegau newydd.

- Ceisiodd yr aelodau gael eglurder ar y ffaith bod rhai o'r ffigyrau yn yr adroddiad, megis Rhaglen Gyfalaf y Gronfa Gyffredinol, yn ymddangos fel eu bod yn wahanol iawn i'r hyn yr oeddent 12 mis yn ôl. Eglurodd yr Aelod Cabinet nad oedd y Rhaglen Ysgolion Band B wedi'i rhagolygu y llynedd, a bod hyn yn cynrychioli swm sylweddol. Nododd y Cyfarwyddwr bod cynnydd sylweddol arall wedi bod yn y Rhaglen Gyfalaf, ac y gall newidiadau gwleidyddol ac ymrwymiadau amrywiol gael effaith hefyd.

- Amlygodd yr Aelodau y gwariant o £11m ar orfodaeth parcio, gyda gwarged isel o £200,000 y flwyddyn, gan nodi bod Awdurdodau Lleol eraill yn creu mwy o warged, y maent yn ei ddefnyddio i atal cynnydd yn y dreth gyngor er enghraifft. Cyfeiriwyd yr aelodau at atodiad 19 o'r adroddiad ar y gyllideb, sy'n nodi manylion gwariant ac incwm gorfodaeth parcio sifil. Nododd y Cyfarwyddwr y byddai £5m yn mynd tuag at gefnogi'r Gwasanaeth Priffyrdd ac y byddai gwarged o £811,000 y flwyddyn honno. Bydd peth gwariant penodol yn dod allan o'r gwarged hwn, megis creu parthau 20mya, fydd yn y pendraw'n arwain at y ffigwr o £200,000. Roedd yr Aelodau' n ystyried yr eglurhad hwn yn ddefnyddiol, gan nodi y byddai modd gwneud mwy yn y maes hwn i greu incwm.

- Nododd yr Aelodau bryderon am y Cyngor yn rhedeg ei wasanaethau Fflyd ei hun, gan awgrymu y byddai'n well comisiynu rhywun allanol i wneud hyn. Gwnaethant nodi fod gan yr adran wariant gros o £6.1m, ac ar hyn o bryd dim ond yn dod o hyd i £120,000 o arbedion. Cafodd yr Aelodau wybod mai cyfrifoldeb y Gyfarwyddiaeth yw cyflwyno'r arbedion hyn, ond byddai adolygiad o'r Gwasanaethau Trafnidiaeth Canolog. Nododd yr Aelod Cabinet bod system newydd ar waith (Tranman), fydd yn rhoi ystod o ddata i helpu i lywio'r adolygiad hwn.

- Amlygodd yr Aelodau y nifer fawr o arbedion fyddai'n dod gan y Gwasanaethau Cymdeithasol, gan geisio eglurder ar yr arbediad arfaethedig o £450,000 drwy ddefnyddio cyllid yn well ar gyfer lleoliadau cartref gofal newydd, gan nodi y byddai'r targedau hyn yn anodd i'w bwrw. Cafodd yr Aelodau wybod bod cyfran yr arbedion gan y Gwasanaethau Cymdeithasol yn is na llawer o Gyfarwyddiaethau eraill. Wrth edrych ar leoliadau gofal cartref newydd, mae'r Cyngor yn defnyddio nifer o ddarparwyr, a'r nod yw bod yn fwy cyson a chost-effeithiol wrth brynu'r lleoliadau hyn. Ychwanegodd y Cyfarwyddwr bod adolygiad wedi bod yn cael ei gynnal rhwng Cyngor Bro Morgannwg a'r Bwrdd Iechyd Prifysgol, sydd ymhlith pethau eraill yn edrych ar

pam fod cost lleoliadau yn yr un cartrefi gofal yn wahanol mewn awdurdodau gwahanol. Cafodd yr Aelodau wybod hefyd nad oes cost ychwanegol i'r defnyddiwr gwasanaeth.

- Yn ogystal, mewn perthynas â Gwasanaethau Cymdeithasol, holodd yr Aelodau a oedd yr £8m o gyllid ychwanegol oedd yn mynd i'r Gyfarwyddiaeth yn cynnwys canslo unrhyw arbedion o gyllidebau blaenorol nas cyflawnwyd. Eglurodd y Cyfarwyddwr bod hyn wedi'i archwilio wrth greu'r gyllideb a bod arbediad o £190,000 wedi'i gytuno i gael ei ganslo, oedd yn ymwneud ag adolygu achosion anableddau dysgu a'r ffordd yr oedd gofal yn cael ei ddarparu.

- Nododd yr Aelodau bryderon bod arbedion risg uchel yn dod o greu incwm yn thema cyffredin rhwng Cyfarwyddiaethau, gan ofyn beth oedd asesiad cyffredinol yr arbedion hyn a'r risg i'r gyllideb yn ei chyfanrwydd pe na fyddant yn cael eu cyflawni. Eglurodd y Cyfarwyddwr bod yr holl arbedion yn anodd i'w gwneud, a bod angen edrych ar ffyrdd mwy arloesol, gan gynnwys creu incwm. O'r cynigion arbedion cyffredinol sydd werth £14.3m, mae £2.4m yn dod o greu incwm. Mae'r cynigion yn amrywio ledled Cyfarwyddiaethau, gydag ychydig o ffrydiau incwm (yn enwedig rhai newydd) yn fwy o risg nag eraill.

- Nododd yr Aelodau bryderon ynghylch pris benthyg, gyda chyfraddau llog yn codi, gan holi a fyddai hyn yn effeithio ar gyllidebau i'r dyfodol. Eglurodd y Cyfarwyddwr bod y Cyngor yn benthyg gan Fwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus ar raddfa llog sefydlog a bod dim angen iddynt fenthyg ymlaen llaw fel Awdurdod Lleol. Fodd bynnag, mae taflwybr llyfn o ran cynnydd mewn cyfraddau llog i'r dyfodol. Nododd bod y Cyngor yn gweithio'n agos gydag Ymgynghorwyr y Trysorlys proffesiynol sy'n rhoi cyngor iddynt ar gynnydd mewn cyfraddau llog a mae Strategaeth Reoli'r Drysorlys wedi'i nodi yn yr adroddiad ar y gyllideb.

- Nododd yr aelodau sut roedd salwch ac absenoldebau'n cael ei ddatrys yn y strategaeth newydd, gan holi sut roedd y Gwasanaeth Gwastraff Domestig (GGD), sydd â lefel uchel o absenoldebau'n hanesyddol, yn gallu gwneud arbedion yn y maes hwn. Eglurodd yr Aelod Cabinet bod pob arbediad yn cael ei lofnodi gan Gyfarwyddiaethau, ac nad yw rhai gwasanaethau yn defnyddio staff asiantaeth, felly mae'n anodd gwneud arbedion. Mae GGD wedi cynnig mwy o arbedion gan eu bod nhw'n rhoi dulliau ar waith i leihau eu dibynadwyedd ar staff asiantaeth.

**Cynigion cyllidebol y Gyfarwyddiaeth Adnoddau**

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Chris Weaver (Aelod Cabinet dros Gyllid, Moderneiddio a Pherfformiad), Christine Salter (Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau), Philip Lenz (Prif Swyddog Adnoddau Dynol) ac Ian Allwood (Pennaeth Cyllid) i'r eitem hon.

Gwahoddodd y Cadeirydd Christine Salter i roi cyflwyniad lle trafododd y canlynol:

- Blaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol o ran cyflawni Uchelgais Prifddinas
- Cynigion Arbedion ar gyfer 2018/19
- Ymrwymiadau'r Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2018-21

Rhoddodd y Cadeirydd gyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a rhoi sylwadau:

- Nododd yr Aelodau'r symudiad arfaethedig yn yr adran TGCh o ysgrifennu rhaglenni i ddefnyddio rhai ar y silff, gan ddadlau bod hyn yn ymddangos fel ei fod yn mynd yn groes i wasanaethau eraill yn y Cyngor sy'n ceisio bod 'ar flaen y gâd' a chreu incwm. Eglurodd y Cyfarwyddwr bod angen systemau addas at y diben, ac y dylai adrannau fod yn symleiddio prosesau i baru technoleg er mwyn gwneud y defnydd mwyaf effeithlon o dechnoleg. O ran creu incwm, nododd y gwaith y mae'r Gyfarwyddiaeth Adnoddau wedi'i wneud ar Gomisiynu a Chaffael y Cwmni Masnachu Awdurdod Lleol, sef y cyntaf o'i fath yng Nghymru. Ychwanegodd yr Aelod Cabinet mai'r peth pwysicaf yw rhoi'r cwsmer yn gyntaf a gwrando ar ei anghenion, fydd yn gyrru dewisiadau TGCh. Cytunodd yr Aelodau ar hyn, ond gan ychwanegu bod cyfle i'r Cyngor weithio gyda phartneriaid eraill, megis Prifysgolion, i ddatblygu systemau newydd. Eglurodd y swyddogion y byddai'r swydd Prif Swyddog Digidol yn sicrhau trawsffurfiad digidoleiddio yn yr Awdurdod.

- O ran digidoleiddio, nododd yr Aelodau bryderon na fyddai'r Prif Swyddog Digidol yn gallu creu newid mawr oherwydd yr arbedion sy'n rhaid eu gwneud. Eglurodd y Cyfarwyddwr ei bod hi'n bwysig i adolygu prosesau, i ddileu dyblygu ac i wneud arbedion cyn gweithredu technolegau newydd.

- Gofynnodd yr Aelodau os oedd gan y Gyfarwyddiaeth yr adnoddau gofynnol i symud ymlaen, gan eu bod nhw'n colli mwy o swyddi nag unrhyw un arall. Atebodd y swyddogion bod angen i Adnoddau chwarae rhan o ran arbedion, ac er y dylai 2018/19 fod yn hawdd i'w rheoli, yn y tymor canolig bydd materion sydd angen eu datrys.

- Nododd yr Aelodau bryderon o ran e-filio, yn benodol mewn perthynas â cheisiadau ysgol ar-lein, gan nodi mai dim ond 85% o geisiadau sy'n cael eu cyflwyno ar-lein yn arc ddeheuol y Ddinas, a'i bod hi'n bwysig i beidio ag allgau pobl os nad yw e-filio'n hygyrch iddynt. Cytunodd yr Aelodau nad yw e-filio yn addas i bawb ac o ran e-filio'r Dreth Gyngor, mae angen i bobl optio i mewn, felly mae her o ran cael mwy o bobl i wneud hyn. Cafodd yr Aelodau wybod hefyd bod yr adran yn edrych ar ddefnyddio Chatbots (gweithredwyr canolfan alwadau awtomataidd) i alluogi cwsmeriaid sydd heb fynediad i'r rhyngrwyd i barhau i ddefnyddio gwasanaeth ffôn, gydag arbediad chost i'r Cyngor.

**Cynigion cyllidebol Cyfarwyddiaeth Datblygu Economaidd**

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Russell Goodway (Aelod Cabinet dros Fuddsoddi a Datblygu), Neil Hanratty (Cyfarwyddwr Datblygu Economaidd), Christine Salter (Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau), Tara King (Cyfarwyddwr Cynorthwyol Masnach a Chydweithio), ac Ian Allwood (Pennaeth Cyllid) ar gyfer yr eitem hon.

Atgoffodd yr Aelodau mai dim ond rhai gwasanaethau yn Datblygu Economaidd sydd o dan cylch gorchwyl y Pwyllgor hwn, yn benodol Eiddo a Rheoli Cyfleusterau.

Gwahoddodd y Cadeirydd Neil Hanratty i wneud datganiad lle cyfeiriodd at yr amcanion Cynllun Corfforaethol perthnasol, yn benodol yr ôl-rhestr cynnal a chadw mewn ysgolion, adolygiad o Ystad y Cyngor a'r Model Cyflawni Landlord

Corfforaethol. Yn ogystal, trafododd yr arbedion £2.486 fydd yn dod o'r Gyfarwyddiaeth.

Rhoddodd y Cadeirydd gyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a rhoi sylwadau:

- Nododd yr Aelodau bod llawer o risgiau coch-ambr o ran cyflawni yn y rhan creu incwm yn y cynigion arbedion. Pwysleisiodd y Swyddogion bod y Gwasanaethau Rheoli Plau a Glanhau Adeiladau eisoes yn gor-gyflawni eleni, felly roeddent yn hyderus y byddai'r rhain yn gwneud arbedion. Mae'r Gwasanaethau Diogelwch wedi gweld llawer o brosesau newid, megis y risg coch-ambr, ond mae'r rhain bron â dod i ben bellach ac mae cynlluniau gwaith ar waith i helpu i gyflawni'r arbedion hyn. Roedd yr aelodau'n falch o'r ymateb hwn.

- Holodd yr Aelodau pa mor hyderus oedd y Gyfarwyddiaeth o ran gwybod yn union beth yw Ystâd y Cyngor, gan roi enghraifft o ddarn o dir y mae'r Awdurdod newydd ddarganfod y mae'n berchen arno. Eglurodd y Swyddogion bod adolygiad ar waith i helpu yn y maes hwn, ac er eu bod nhw'n hyderus ar yr ochr adeiladu o bethau, mae rhannau o dir sydd angen eu hymchwilio. Cafodd yr aelodau wybod hefyd bod y gronfa ddata yn troi'n un digidol, ac y byddai cronfa ganolog ar gyfer y wybodaeth hon.

- Nododd yr Aelodau bod y cymhorthdal Pwll Rhyngwladol wedi'i waredu gan holi pa effaith fyddai hyn yn ei chael ar y cyhoedd a'r gwasanaethau a ddarperir. Eglurodd yr Aelod Cabinet bod yr arbedion wedi'u cyflawni, a bod y gweithredwr (Parkwood Leisure) wedi rhoi sicrwydd na fyddai unrhyw doriadau i'r ddarpariaeth gwasanaeth. Ychwanegodd y Cyfarwyddwr y byddai'r telerau cytunedig yn dal i fod yr un peth, felly mae'r holl amddiffynwyr yn dal i fod ar waith. Holodd yr Aelodau hefyd a ddylai'r cymhorthdal hwn fod wedi'i adolygu cyn y pwynt hwn, ond cawsant glywed ei fod yn gytundeb nad oedd modd ei thorri.

- Unwaith eto, gwnaeth yr Aelodau fynegi pryderon bod y model Landlord Corfforaethol yn cael ei leihau i un llinell yn y Cynllun ynghylch cydymffurfiaeth, gan ofyn a fyddai toriadau i'r Gyfarwyddiaeth yn effeithio ar y tîm sy'n delio â'r project hwn. O ran adnoddau, eglurodd y Swyddogion bod Rhaglen Datblygu Sefydliadol ar waith ar gyfer Asedau ac Eiddo fydd yn cymryd rhwng 3 a 5 mlynedd i'w chyflawni. Ychwanegodd y Swyddogion nad oedd unrhyw golledion swyddi yn y maes ac y byddai cynnydd mewn swyddi cydymffurfiaeth, gan mai hon yw'r cam cyntaf ar y llwybr.

- Ceisiodd yr Aelodau eglurder ar y model Landlord Corfforaethol, gan amlygu y byddai £40m o werthiannau asedau yn mynd i gynlluniau amherthnasol, gan holi a oedd digon o arian i fynd ar ôl yr ôl-rhestr cynnal a chadw ar gyfer yr ystâd gweithredol. Eglurodd yr Aelod Cabinet y byddai £25m, o'r £40m, yn mynd tuag at wella'r ystâd ysgolion. Dylai'r Cyngor barhau i dderbyn cyfanswm cyfalaf gan LC bob blwyddyn, sydd wedi'i fuddsoddi mewn cynnal a chadw'n hanesyddol. Fodd bynnag, nid yw graddfa'r ddyraniad gyfalaf yn ddigonol i fynd ar ôl y gwaith trwsio i gyd, a'r prif bryder yw sicrhau bod adeiladau'n cydymffurfio. Gofynnodd yr Aelodau hefyd beth oedd yr amserlen i ddelio â'r holl waith. Eglurodd yr Aelodau bod arolygon cyflwr yn cael eu

cynnal mewn adeiladau fyddai'n rhoi gwell syniad am y ffigwr. Byddai gwaith yn cael ei gynnal i adnabod y gyfres nesaf o adeiladau critigol a byddai'r broses gyfan yn cymryd tua 5-10 mlynedd Ychwanegodd y Cyfarwyddwr bod llawer o flaenoriaethau yn y llwyth gwaith hwn, gydag oddeutu £15m yn eisiau am y pryderon â blaenoriaeth uchaf. Gofynnodd yr Aelodau am ddiweddariad ar adeiladau sy'n cynnal lleoliadau diwylliannol ac sy'n dal i fod angen cymhorthdal, gan ofyn a oedd strategaethau ar waith ar gyfer y rhain. Atgoffwyd yr Aelodau bod proses wedi'i chynnal ychydig flynyddoedd yn ôl i weld a fyddai modd dod o hyd i weithredwyr allanol i redeg y Theatr Newydd a Neuadd Dewi Sant, ond ar yr adeg teimlwyd nad oedd y bidiau'n ddigonol ac y gallai'r Cyngor barhau i'w rhedeg nhw'n gystal. Mae cymhorthdal yn dal i fod yn eisiau os yw'r lleoliadau hyn yn mynd i barhau i weithredu.

**Cynigion cyllidebol Cyfarwyddiaeth Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol**

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Huw Thomas (Arweinydd Cyngor Caerdydd), Chris Weaver (Aelod Cabinet dros Gyllid, Moderneiddio a Pherfformiad), Davina Fiore (Cyfarwyddwr Llywodraethu a Chyfreithiol), Christine Salter (Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau) ac Ian Allwood (Pennaeth Cyllid) ar gyfer yr eitem hon.

Gwahoddodd y Cadeirydd Davina Fiore i wneud datganiad. Amlygodd bod y cynigion arbedion ar gyfer y Gyfarwyddiaeth yn cael eu rhannu yn ddau grŵp. Yn gyntaf, byddai cyllid ychwanegol, gan gynnwys drwy Fargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd ac Anfonebau Cyfalaf. Yn ail. byddai ychydig o ostyngiad mewn gwasanaethau megis y swyddogaeth graffu a gostyngiad yn ffioedd cyfreithiol allanol.

Rhoddodd y Cadeirydd gyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a rhoi sylwadau:

- Nododd yr Aelodau bod y gostyngiad yn y swyddogaeth graffu wedi'i ddisgrifio fel ei fod yn syml ac yn rhwydd, gan holi pam ei fod felly'n risg coch-ambr o ran cyflawni. Cafodd yr Aelodau wybod bod y risg yn adlewyrchu mater sy'n sensitif yn wleidyddol a bod craffu'n swyddogaeth bwysig. Ychwanegodd y dylai'r llwyth gwaith fod yn realistig os yw'r adran yn glynu at y blaengynllun. Eglurodd yr Arweinydd hefyd er ei bod hi'n dda y byddai craffu'n dal i fod â 5 pwyllgor, mae cyfyngiad o ran y cymorth y gall swyddogaeth graffu'r Cyngor ei ddarparu, ac efallai y byddai'n ddefnyddiol defnyddio partneriaid allanol.

- Holodd yr aelodau os oedd unrhyw gysylltiadau eisoes yn bodoli gyda phartneriaid allanol, megis Prifysgolion, i gynorthwyo â'r gwaith craffu. Eglurodd yr Arweinydd ei bod hi'n dibynnu ar beth sy'n cael ei graffu, felly gallai gynnwys cydweithio â Phrifysgolion ond hefyd gyda phartneriaid allanol eraill megis Elusennau, a bod angen adeiladu perthnasoedd. Cynigiodd yr Aelodau y gallai myfyrwyr prifysgol wneud y gwaith ymchwil ar ran y Pwyllgorau Craffu.

- Nododd yr Aelodau'r gostyngiad yn y gwaith cyfreithiol allanol gan ofyn a oedd y balans yn iawn bellach rhwng defnyddio gwasanaethau cyfreithiol mewnol ac allanol. Cafodd yr aelodau wybod er nad oedd unrhyw swyddi newydd yn cael eu creu, mae'n gost-effeithiol i gael gwasanaeth cyfreithiol mewnol sy'n cael ei redeg yn dda. Fodd bynnag, nid yw'n bosibl i fod â phob maes arbenigedd, felly bydd gwasanaethau allanol yn cael eu defnyddio lpan fydd angen. Mae

posibilrwydd o ddefnyddio gwasanaethau a rennir gydag awdurdodau lleol eraill, ond byddai hyn yn golygu llawer iawn o waith a byddai’r costau'n debygol o fod yn fwy na'r arbedion.

- Holodd yr Aelodau a oedd y Gyfarwyddiaeth yn cadw’r Cyfreithwyr y mae’n eu recriwtio, a chawsant wybod bod nhw'n aros yn gyffredinol, a bod yr adran wedi llwyddo i lenwi bob swydd a hysbysebwyd hyd yn hyn.

- Nododd yr Aelodau ei bod hi’n debygol y byddai cynnydd yn nifer a chymhlethdod yr achosion gofal plant, gan ofyn a fyddai’r adran yn recriwtio pobl ag arbenigedd i ymdrin â hynny. Eglurodd y Cyfarwyddwr bod cyfreithwyr profiadol o safon wedi’u recriwtio, ynghyd â dwy swydd cyfreithiwr dan hyfforddiant, ond y byddai'n rhaid i ychydig o waith fynd yn allanol.

PENDERFYNWYD – y bydd y Cadeirydd yn ysgrifennu at yr Aelod Cabinet ar ran y Pwyllgor i gyfleu eu sylwadau a’u harsylwadau.

118 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Gan fod cyfarfod 14 Mawrth 2018 wedi’i ganslo, bydd cyfarfod nesaf y Pwyllgor Craffu Adolygu Polisi a Pherfformiad yn cael ei gynnal ar 18 Ebrill 2018 am 4:30pm.

Daeth y cyfarfod i ben am 5.12 pm